OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 895

# Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Cymuned) (Cymru) 2003

## RHAN IV

### Lwfansau Eraill

**Diffiniad o "ddyletswydd wedi'i chymeradwyo"**

**9.**—(1) Yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau a eithrir gan baragraff (2), at ddibenion adrannau 173, 175 a 176 o Ddeddf 1972 ystyr "dyletswydd wedi'i chymeradwyo" yw —

(a) unrhyw rai o'r dyletswyddau canlynol —

(i) presenoldeb mewn cyfarfod o'r awdurdod neu o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor o'r awdurdod neu o unrhyw gorff arall y mae'r awdurdod yn penodi neu'n enwebu iddo, neu o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor o gorff o'r fath;

(ii) presenoldeb mewn unrhyw gyfarfod arall yr awdurdodir ei gynnal gan yr awdurdod, neu bwyllgor neu is-bwyllgor o'r awdurdod, neu gyd-bwyllgor o'r awdurdod ac un awdurdod arall neu fwy, neu is-bwyllgor o gyd-bwyllgor o'r fath, ar yr amod —

(aa) os yw'r awdurdod wedi'i rannu yn ddau grŵp gwleidyddol neu fwy, y mae'n gyfarfod y gwahoddwyd aelodau o ddau grŵp o'r fath o leiaf iddo, neu

(bb) os na rannwyd yr awdurdod yn y fath fodd, y mae'n gyfarfod y gwahoddwyd o leiaf ddau aelod o'r awdurdod iddo;

(iii) presenoldeb mewn cyfarfod o unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r awdurdod yn aelod ohono; a

(iv) presenoldeb mewn unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwywyd gan yr awdurdod.

(b) unrhyw ddyletswyddau yr ymgymerir â hwy ar ran yr awdurdod —

(i) yn unol ag unrhyw Reol Sefydlog sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelod neu aelodau fod yn bresennol pan fydd dogfennau tendro yn cael eu hagor;

(ii) mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaeth yr awdurdod a roddwyd gan neu o dan unrhyw ddeddfiad ac sy'n rhoi'r pŵer i'r awdurdod, neu'n ei gwneud yn ofynnol iddo, archwilio neu awdurdodi archwiliad o dir ac adeiladau; ac

(c) unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwyir gan yr awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd arall o ddosbarth a gymeradwyir felly, yr ymgymerir â hi at ddibenion cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu unrhyw un o'i bwyllgorau neu is-bwyllgorau, neu mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau o'r fath.

(2) Y dyletswyddau a eithrir gan y paragraff hwn yw'r dyletswyddau hynny y mae aelod yn derbyn tâl amdanynt heblaw o dan Ran II.

**Lwfansau i fynd i gynadleddau a chyfarfodydd — cyfyngiadau ariannol ar lwfansau o dan adran 175 o Ddeddf 1972**

**10.** Rhaid i unrhyw daliad o lwfans o dan adran 175 o Ddeddf 1972 sydd o natur lwfans presenoldeb (heblaw taliad o'r fath i aelod sydd yn gynghorydd gan awdurdod y mae Rhan II o'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo) beidio â bod yn fwy na £32.46 am unrhyw gyfnod nad yw'n fwy na 24 awr ac i'r diben hwn mae cyfnod o 24 awr yn dechrau am 3am.

**Lwfansau teithio a chynhaliaeth**

**11.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), bydd gan aelod hawl i gael taliadau drwy lwfans teithio neu lwfans cynhaliaeth ar gyfraddau y penderfynir arnynt bob blwyddyn gan yr awdurdod pan fydd gwariant ar deithio neu gynhaliaeth yn cael ei dynnu o raid gan yr aelod hwnnw wrth iddo gyflawni dyletswydd wedi'i chymeradwyo fel aelod o'r awdurdod.

(2) Ni fydd cyfraddau'r lwfans a benderfynir am flwyddyn o dan baragraff (1) ar gyfer teithio mewn car modur preifat yn fwy na chyfraddau'r lwfansau cyfatebol am y flwyddyn honno sy'n daladwy i aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar yr amod, os bydd cyfradd unrhyw lwfans o'r fath ar y diwrnod yn union cyn y diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym eisoes yn fwy na chyfradd y lwfans cyfatebol sy'n daladwy am y flwyddyn honno i aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, caiff cyfradd y lwfans hwnnw barhau ar y lefel honno ond ni chaiff ei chynyddu hyd nes y bydd cyfradd y lwfans cyfatebol sy'n daladwy i aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn fwy na'r hyn a delir gan yr awdurdod.

(3) Rhaid i dderbynebau priodol gyd-fynd ag unrhyw hawliad am daliad lwfansau teithio a chynhaliaeth yn unol â'r Rheoliadau hyn (gan eithrio hawliadau am deithio mewn cerbyd modur preifat) sy'n profi treuliau gwirioneddol, yn ddarostyngedig i unrhyw ofyniad neu gyfyngiad y gall awdurdod benderfynu arnynt.

(4) Ni fydd gan aelod yr hawl i unrhyw daliad o dan y Rheoliad hwn mewn perthynas â chyflawni, fel aelod o'r fath, ddyletswydd wedi'i chymeradwyo o fewn y gymuned, neu yn achos cymuned sy'n un o grŵ p o dan gyngor cymuned, o fewn ardal y grŵ p hwnnw.